

Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad byr y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar *Effaith yr Achosion o COVID-19 ar y Gymraeg.*

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am eu hamser ac am y sylwadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a anfonwyd ar 26 Tachwedd 2020. Fel y gwelwch o'n hymatebion, mae'r pandemig wedi dangos pa mor fregus y gall iaith a'r rhwydweithiau dynol sy'n ei chynnal fod ond hefyd pa mor wydn y gall fod wrth i unigolion a sefydliadau addasu, arloesi a newid.

Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi bod yn gweithio ar draws y Llywodraeth a chyda'n partneriaid ar hyd a lled y wlad i ymateb i sefyllfa sy'n newid yn gyflym gan geisio lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar *Cymraeg 2050* ac i geisio gwneud y mwyaf o'r cyfleodd sy'n dod i'n rhan. Mae hyn yn amrywio o gynnig cyllid ychwanegol i'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol i'w cefnogi wrth i ddiwyddiadau gael eu gohirio a ffrydiau cyllid ddiplannu dros nos, sicrhau bod Cysgliad ar gael yn rhad ac am ddim, cynnal ymgyrch i gefnogi rhieni plant sy'n cael addysg Gymraeg a chynnal awdit o ddefnydd iaith cymunedol. Mae manylion llawn ein gweithgarwch wedi eu cynnwys yn y [papur pwyllgor](#) a gyflwynwyd gennym cyn i mi fynychu cyfarfod pwyllgor ar 8 Hydref y llynedd. Byddwn yn trafod y datblygiadau diweddaraf gyda chi mewn cyfarfod pwyllgor arall fis Chwefror.

Fel yn achos meysydd polisi eraill y Llywodraeth, mae'r pandemig wedi effeithio ar Raglen Waith *Cymraeg 2050* ar gyfer 2017-21. Mae'r ansicrwydd o ran Brexit hefyd yn her i bolisi'r Gymraeg. Ond, hoffwn nodi'n glir, er bod y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo wedi newid yn ddramatig ers dyfodiad *Cymraeg 2050*, nad yw ein blaenoriaethau strategol wedi newid. Fodd bynnag, rydym yn barod i addasu ein rhaglen waith yn ôl y gofyn er mwyn ymateb i'r heriau a'r cyfleodd newydd hyn.

Isod rydw i'n nodi ein hymatebion i argymhellion yr adroddiad yn unigol:

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw aildyrannu cyllid y Gymraeg yn y tymor byr, oherwydd y pandemig, yn arwain at ddyraniadau cyllid tymor hwy a allai dynnu oddi ar gyflawni nodau Cymraeg 2050. Dylai Llywodraeth Cymru adfer y dyraniadau cyllideb ar gyfer cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn llawn, a hynny cyn gynted â phosibl.

Ymateb: Derbyn.

Goblygiadau ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

Gyda dyfodiad COVID-19 a'r ymateb brys a oedd yn ofynnol yn wyneb y sefyllfa iechyd cyhoeddus, aethpwyd ati ar unwaith i ailsianelu cyllidebau ar draws Llywodraeth Cymru. Roedd difrifoldeb y sefyllfa yn golygu ein bod wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi'r bobl a oedd fwyaf agored i effeithiau COVID-19. Cafodd cyllidebau eu targedu at wasanaethau rheng flaen y GIG yn bennaf, ac at gefnogi sefydliadau a roddwyd dan bwysau yn sgil y pandemig.

Wrth edrych ar gyllideb y Gymraeg ar ddechrau'r pandemig mewn ymateb i gais i ail flaenoriaethu cyllidebau i gefnogi blaenoriaethau'r Llywodraeth, fe wnaethon ni gynnal adolygiad manwl o'r cyllidebau ar sail y meini prawf canlynol:

- Yr hyn nad oedd modd ei wneud yn sgil y pandemig (e.e. cyllid yn ymwneud â gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned).
- Yr hyn yr oedd modd ei ohirio (e.e. adolygu Grantiau Hyrwyddo'r Gymraeg).
- Yr hyn y gellir ei wneud yn wahanol (e.e. gweithgareddau dysgu Cymraeg: cafodd cyrsiau a gaiff eu rhedeg gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol eu symud ar-lein yn llwyddiannus, yn ogystal â'r rhaglen *Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog* ar y cyd â'm hadran ac Academi Wales).

Drwy weithio fel hyn, rydym ni'n credu ein bod wedi cadw'r effeithiau negyddol i'r lefel isaf bosibl, a'n bod wedi gwneud ein gorau glas i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein hymrwymiaidau o ran *Cymraeg 2050*. Yn wir, rydym ni wedi gweld llawer o bethau cadarnhaol yn ystod y cyfnod hwn, er enghraifft: achosion newydd o arloesi, defnydd amgen o dechnoleg a charfan ychwanegol o ddysgwyr yn mynychu gwersi rhithiol. Byddwn yn dysgu o'r profiadau hyn ac adeiladu arnynt wrth gynllunio at y dyfodol.

Cyhoeddwyd Cyllideb Ddrafft y Llywodraeth ar gyfer 2021-22 ar 21 Rhagfyr 2020 a hynny mewn cyfnod anodd – ynghanol pandemig byd-eang a chydag ansicrwydd Brexit yn parhau. O dan yr amgylchiadau felly, rydw i'n falch fod y gyllideb sydd wedi ei neilltuo i gefnogi *Cymraeg 2050* yn fy mhortffolio i ac ym mhortffolio'r Gweinidog Addysg wedi ei hadfer yn llawn yn y gyllideb ddrafft i'r lefel ag ydoedd cyn i COVID-19 daro. Gyda'r pandemig, daeth cyfleodd i arloesi ac ar ôl trafod gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gwelwyd bod cyfle i ail fuddsoddi peth o'i chyllideb yn ystod 2021-22. Rydym wedi ailgyfeirio £200k o'i chyllideb i ariannu prosiectau seilwaith ieithyddol a fydd yn cynnwys creu polisi i gydlynu corpws, geiriaduron ac adnoddau terminoleg yn well er mwyn cryfhau'r seilwaith sy'n cefnogi defnydd iaith.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod swyddi sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ledled Cymru yn ganolog i'w chynllun ar gyfer adfer yr economi.

Ymateb: Derbyn.

Goblygiadau ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi datblygu pecyn o fesurau i ddiogelu swyddi. Mae hyn yn cynnwys y trydydd sector, y sector preifat a gweithwyr llawrydd. Rydym wedi datblygu nifer o gronfeydd perthnasol er mwyn diogelu dyfodol nifer o sefydliadau a'u galluogi i barhau i gyflogi staff. Mae'r cronfeydd hyn yn berthnasol i faes gwaith nifer o sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r cynllun cadw swyddi wedi diogelu cyflogaeth nifer o swyddogion ac rwyf yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU i ymestyn y cynllun hyd ddiwedd Ebrill 2021 – mae hyn yn gymorth sylweddol i nifer o sefydliadau.

Mae adroddiad [Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a'r blaenoriaethau](#) yn cydnabod yr heriau sydd ynghlwm ag adfer yr economi, cymunedau a'r gymdeithas, gan osod y cyd-destun. Yn y cyswllt hwn, bydd y Gymraeg yn cael ystyriaeth lawn wrth i ni adfer o gyfnod y pandemig. Mae'r ddogfen yn nodi pwysigrwydd:

Diogelu cadernid ein cymunedau a'n rhwydweithiau Cymraeg, gan fwrw ymlaen â'n hymrwymiaidau i gynyddu nifer y bobl sy'n dysgu ac yn defnyddio'r iaith yn y dyfodol, gan sicrhau bod ein hymatebion i'r coronafeirws yn ystyried yr ymrwymiaidau hyn yn llawn

Wrth reswm, mae hyrwyddo'r Gymraeg yng nghyd-destun yr economi yn rhan hollbwysig o ddiogelu cymunedau a rhwydweithiau Cymraeg, a byddwn yn parhau i roi pwyslais ar yr agwedd hon ar ein gwaith. Rwyf wedi sefydlu Bwrdd Crwn Economi ac Iaith er mwyn trafod y berthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg gan edrych yn benodol ar ddyfodol cymunedau Cymraeg a gwledig gan ystyried sut all datblygiadau economaidd fod o fudd i'r Gymraeg.

Mae rhaglen Arfor yn cynnig model newydd o weithio drwy roi ffocws ar ddatblygu economi'r gorllewin gan hefyd ystyried ffyrdd o roi budd i'r Gymraeg. Bydd gwerthusiad annibynnol yn cael ei gynnal o'r rhaglen a bydd modd ystyried y ffordd ymlaen i'r math hyn o weithredu yn y dyfodol. Mae hyn hefyd yn plethu gyda chanfyddiadau adroddiad [Arolwg o Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol](#) sy'n gweithredu, yn hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, er mwyn deall effaith y pandemig ar y ffordd y mae grwpiau cymunedol yn gweithredu. Byddaf yn edrych ar yr argymhellion hyn o ran cyfleoedd posibl, yn enwedig potensial mentrau cymdeithasol i greu swyddi a chynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diweddarau ei chynllun gweithredu Cymraeg 2050 a'r cynllun gweithredu technoleg Cymraeg i adlewyrchu'r newid cyflym mewn dysgu Cymraeg, gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol ar-lein, sy'n hwyluso ei defnydd gartref ac yn cynyddu diddordeb yn yr iaith y tu allan i Gymru.

Ymateb: Derbyn

Goblygiadau ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

Rydym wrthi'n datblygu rhaglen waith newydd ar gyfer *Cymraeg 2050* ar gyfer y llywodraeth nesaf a byddaf wrth gwrs yn ystyried argymhellion y pwyllgor wrth i ni ei lunio. Bydd y cynllun hefyd yn edrych ar gyfeiriad y daith o ran technoleg a'r Gymraeg. Rwy'n llwyr gydnabod cymaint o rôl gadarnhaol y mae technoleg wedi'i chwarae yn ystod y pandemig. Ar 22 Rhagfyr y llynedd, fe wnes i gyhoeddi [Adroddiad Cynnydd](#) i ddangos ein gwaith hyd yma o dan y [Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg](#). Mae'n sôn am beth sydd eisoes wedi'i wneud a sut ydym ni wedi bod yn addasu ein gwaith yn sgil COVID-19

Fodd bynnag, rhaid nodi bod angen eglurder bwriad wrth drafod rôl technoleg a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae gwahaniaeth rhwng meithrin gallu / sgiliau

unigolion neu sefydliadau i ddefnyddio technoleg a sicrhau bod yna is-strwythur digidol addas ar gael ledled Cymru. Mae yna wahaniaeth hefyd rhwng y ddau beth hyn a gwaith i greu isadeiledd *technoleg iaith*, sef yr hyn y mae'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg a'r pecynnau gwaith a gynhwysir ynddo yn mynd i'r afael ag ef.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hyfforddiant ar gael i sefydliadau ac unigolion er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar-lein i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chefnogi eu haelodau.

Ymateb: Derbyn

Goblygiadau ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

Fel y nodais o dan Argymhelliad 2 uchod, comisiynodd Is-grŵp Cynyddu Defnydd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg Arolwg o effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol. Roedd yr arolwg yn holi'r grwpiau cymunedol am eu profiadau o weithredu ers y cyfnod clo cyntaf ddiwedd mis Mawrth y llynedd ac yn gofyn beth allai eu helpu i sicrhau eu bod yn parhau ac yn ffynnu yn y dyfodol. Un o'r prif ganfyddiadau oedd bod heriau sylweddol yn wynebu nifer o'r grwpiau cymunedol wrth geisio dygymod â COVID-19 a'r angen i symud llawer o bethau ar-lein.

Mewn ymateb i'r materion hyn:

- Mae nifer o sefydliadau ac unigolion eisoes wedi datblygu eu sgiliau yn sgil y pandemig, ac wedi gwneud hyn mewn cyfnod byr iawn. Gellir gweld hyn yn glir wrth i nifer o sefydliadau yr ydym yn dyfarnu grant iddynt i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg addasu eu gweithgarwch ar-lein.
- Mae rhai sefydliadau yn gwneud gwaith clodwiw i ddatblygu sgiliau unigolion e.e. gweithdai Merched y Wawr.
- Mae'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol wedi meithrin profiad a sgiliau amhrisiadwy wrth fynd ati i gyrraedd eu cynulleidfaoedd, boed yn rhai traddodiadol neu'n rhai newydd, drwy gyfrwng Eisteddfod T a'r Eisteddfod AmGen.
- Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod llawer o sgiliau yn bodoli eisoes yn y maes a bod modd i sefydliadau gynorthwyo ei gilydd.
- Mae Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg (rhwydwaith a gadeirir gan Lywodraeth Cymru) yn cynnal trafodaeth rhwng y partneriaid sy'n gweithredu yn y maes cynllunio ieithyddol. Mae'r cyfarfodydd yn rhoi sylw penodol ar rannu gwybodaeth, hyfforddiant, ystyried cyfleoedd i gydweithio ynghyd â thrafod datblygiad gwaith y partneriaid tuag at wireddu'r canlyniadau sy'n sail i *Cymraeg 2050*. Mewn cyfarfodydd diweddar, trafodwyd heriau, cyfleoedd ac uchafbwyntiau cyfnod y pandemig hyd yma a sut i weithredu yn ystod y cyfnod nesaf.

Mae llawer o raglenni eisoes yn cael eu cynnig er mwyn meithrin gallu ieithyddol a byddwn yn asesu pa rai o'r rhain fydd yn berthnasol i'n partneriaid.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei strategaeth ddigidol i adlewyrchu'r ffaith bod mwy o angen am wasanaeth rhyngwyd cyflym a dibynadwy ledled Cymru yng ngoleuni'r ddibyniaeth gynyddol ar gynnwys digidol yn dilyn yr achosion o COVID-19 .

Ymateb: Derbyn

Goblygiadau ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

Mae cysylltedd digidol wedi bod o bwys aruthrol yn ein hymateb i'r pandemig presennol, boed er mwyn galluogi pobl i weithio neu ddysgu o bell, neu er mwyn lliniaru ar unigrwydd cymdeithasol. Nawr, yn fwy nag erioed, mae mynediad at gysylltedd cyflym a dibynadwy yn hanfodol.

Mae argyfwng COVID-19 wedi amlygu ein dibyniaeth ar gysylltedd digidol a'r angen i fanteisio'n llawn ar fathau traddodiadol a newydd o seilwaith digidol arloesol i sicrhau y gellir bodloni'r gofynion.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad i barhau i ddarparu cysylltedd cadarn ledled Cymru, drwy ddefnyddio dulliau traddodiadol a newydd, mae swyddogion yn gweithio i ddiweddarau Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r gofynion cyfredol ac unrhyw rai newydd a gyflwynir i ni. Bydd hyn yn golygu, ymhlith mentrau eraill, ffocws ar gefnogaeth a buddsoddiad wedi'u targedu'n fanylach. Bydd hyn yn adeiladu ar yr effaith gadarnhaol sylweddol y mae ymyraethau Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u cael ar gysylltedd digidol ledled y wlad.

Mae rhaglen Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru wedi darparu mynediad at fand eang cyflym a dibynadwy i 733,000 o eiddo a safleoedd ledled Cymru. Mae'r rhaglen wedi gweddnwedd y sefyllfa o ran band eang yng Nghymru. Bellach mae gan ryw 95 y cant o eiddo a safleoedd yng Nghymru fynediad at fand eang cyflym iawn, o gymharu â rhyw 48 y cant cyn i'r rhaglen ddechrau yn 2013.

Bydd cynllun cyfredol Llywodraeth Cymru i gyflwyno gwasanaeth ffibr llawn drwy Openreach yn cynnig mynediad at fand eang ffibr llawn i 39,000 yn rhagor o eiddo a safleoedd yng Nghymru. Llywodraeth Cymru a'r UE sy'n cyllido hyn yn bennaf, ac mae Llywodraeth y DU yn darparu rhywfaint o gyllid ychwanegol. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn Mehefin 2022.

Ym mis Tachwedd 2019, lanswyd Cronfa Band Eang Lleol gwerth £10 miliwn i ddarparu cyllid i awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol allu cysylltu cymunedau cyfan nad oes ganddynt fynediad at fand eang cyflym, dibynadwy a gofalu nad ydynt yn cael eu gadael ar ôl.

Ym mis Ionawr 2016, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun grant Allwedd Band Eang Cymru, gan ddisodli'r cynllun cymorth band eang blaenorol. Mae'r cynllun hwn yn darparu grantiau i gyllido (neu ran-gyllido) costau sefydlu cysylltiadau band eang

newydd i gartrefi, mentrau bach a chanolig, a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r cyllid sydd ar gael yn dibynnu ar gyflymder y cysylltiad newydd: £400 ar gyfer 10Mbps ac yn uwch, neu £800 ar gyfer 30Mbps ac yn uwch. Hyd yma, mae tua 5,000 o eiddo a sefydliadau wedi cael mynediad i fand eang o dan y cynllun.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i sicrhau bod mentrau Llywodraeth y DU yn adlewyrchu heriau darparu cysylltedd digidol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i'r daleb, gan ddyblu'r swm sydd ar gael hyd at £3,000 ar gyfer eiddo preswyl a £7,000 ar gyfer busnesau. Er mwyn canolbwyntio'r cyllid ar yr eiddo sydd ei angen fwyaf, dim ond y safleoedd sydd heb fynediad at gyflymder cyflym iawn (30Mbps) sy'n gymwys.

Mae Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) Llywodraeth Cymru yn darparu rhwydwaith a reolir ledled Cymru sy'n cysylltu dros 110 o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru â rhwydwaith TGCh diogel, preifat â bron i 5,000 o safleoedd cyhoeddus ar draws y wlad. Ar hyn o bryd, mae tua 560 o feddygfeydd a mwy na 1,500 o ysgolion yn elwa ar y rhwydwaith cyflym, cryf a diogel hwn.

Mae'r rhwydwaith hwn wedi chwarae rôl bwysig yn ystod cyfnod cychwynol yr ymateb i COVID-19, gan ddarparu cysylltedd cyflym ag ysbytai'r Ddraig Goch yn gyflym ac yn effeithlon. Fel y nodir uchod, mae'r sefyllfa bresennol wedi tynnu sylw at bwysigrwydd a photensial gweithio gartref ar draws y sector cyhoeddus. Mae wedi tanlinellu hefyd yr angen am gysylltiad gradd busnes cyflym i rai o weithwyr cartref y sector cyhoeddus allu cyflawni eu rôl. Mewn ymateb, mae'r PSBA wedi cyflwyno cynnyrch newydd a fydd yn caniatáu i gysylltiad gradd busnes gael ei ddarparu i gartrefi gweithwyr sector cyhoeddus fel mater o drefn, lle bo angen.

Argymhelliad 6

Dylai cynllun gweithredu nesaf strategaeth Cymraeg 2050 ystyried yn llawn y newidiadau o ran cyfleoedd dysgu sydd bellach ar gael. Bydd angen iddo ystyried y ffyrdd y gellir cyfuno dysgu ar-lein a gwersi personol i weddu orau i ddysgwyr, a lefel y cyllid sydd ei angen i sicrhau y gellir cynnal y twf mewn dysgu ar-lein.

Ymateb: Derbyn.

Goblygiadau ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

Mae'r sector Dysgu Cymraeg wedi addasu a newid yn gyflym oherwydd COVID-19. Daeth dysgu wyneb yn wyneb i ben yn gyfan gwbl ar draws y sector ym mis Mawrth y llynedd, ond ymatebodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'i ddarparwyr yn gadarnhaol iawn i'r sefyllfa. Newidiodd y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn sylweddol yn ystod 2020, a gwnaeth tiwtoriaid a dysgwyr ymdrech arbennig i barhau gyda'r dysgu yn rhithiol ledled Cymru. Gwelsom gynnydd yn y diddordeb i ddechrau dysgu Cymraeg yn ystod y cyfnod clo. Cyflwynodd y Ganolfan gwrs cyfunol newydd ym mis Mai (cwrs sy'n cyfuno dysgu drwy hunan-astudio a dysgu rhithiol) a chofrestrodd dros 1,000 o ddysgwyr newydd ar y cwrs a sefydlwyd 89 o ddisbarthiadau rhithiol. Cofrestrodd dros 8,000 o unigolion ar gyrsiau blasu hunan-astudio ar-lein y

Ganolfan, ac fe brofodd sesiynau wythnosol Clwb Cwtsh y Ganolfan ar Facebook yn boblogaidd iawn. Mae Strategaeth Ddigidol y Ganolfan i greu adnoddau a gwersi hunan-astudio hefyd wedi cael ei datblygu yn fwy cyflym na'r bwriad mewn ymateb i'r pandemig. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno cyrsiau cyfunol ar draws pob lefel o ddysgu, a chysiau hunan-astudio ar lefelau penodol i gychwyn.

Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd y Ganolfan bartneriaeth newydd gyda chwmni Say Something in Welsh. Bydd y Ganolfan a Say Something yn rhannu adnoddau, a bydd modd i ddysgwyr un darparwr gael gostyngiad ar ddarpariaeth y llall. Mae hwn yn gam ymlaen wrth greu un gymuned i ddysgwyr a chynyddu mynediad at gyrsiau o fath gwahanol.

Er bod y newidiadau a ddaeth yn sgil y pandemig wedi gorfod digwydd ar garlam ac wedi bod yn heriol, mae'n bwysig ein bod ni'n elwa o'r cyfleoedd sydd wedi codi ac yn gwneud y mwyaf o'r datblygiadau dysgu digidol sydd wedi profi'n boblogaidd gyda dysgwyr. Byddwn yn gweithio gyda'r Ganolfan i sicrhau bod y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn parhau i ddefnyddio dulliau dysgu amrywiol, gan gynnwys dysgu ar-lein, fel bod dysgwyr yn elwa o arlwy amrywiol o ddarpariaeth sy'n hygyrch ac yn hyblyg. Mae'r Ganolfan wrthi'n gweithio gyda'i darparwyr ar hyn o bryd i gynllunio ar gyfer darpariaeth o fis Medi 2021 ymlaen sy'n gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd dysgu digidol sydd wedi amlygu eu hunain, ac sy'n gwneud defnydd llawn o'r cynnwys digidol sy'n cael ei ddatblygu. Gyda'n cefnogaeth, bydd y Ganolfan yn parhau i fuddsoddi yn ei safle sy'n siop un stop i ddysgwyr, gyda chwilotwr cwrs a llu o adnoddau dysgu digidol.

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg